**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027**

**Cystadleuaeth 144 – Grŵp Llefaru dan 25 oed (Ae)**

## Galwad Gwent, Robat Powell

*(Detholiad o Gywydd Croeso Eisteddfod Casnewydd 2004)*

Tua Hafren yn dolennu
yr oedd hollt fel neidr ddu;
gwylan unig yn pigo
yn y broc a sbwriel bro;
y trai drwy'r llaid yn llydan
a'i anadl oer rhwng dwy lan.

Ond tu hwnt i'r foryd hir
alaw ewyn a glywir;
mae egnïon y tonnau
o bell yn cynhyrfu'r bae,
a llanw byrbwyll yno
i fwrw hawl ar ei fro.

Llanw hwyr fel llanw iaith
yn rholio drwy'r sir eilwaith;
ffrwd ddi-daw ei chystrawen,
a llif diatal ei llên;
trwy'r ddaear fe daena'r don
waddod ei hymadroddion.

Mae llef yng ngharlam y lli,
nid anadl y dihoeni
ond yr her a llawer stranc
sy'n dod o dafod ifanc.
Yn Neheubarth y gobaith
afradlon yw afon iaith!

Ceisiwn ni ger Casnewydd
hafan a phentan ein ffydd
yn y Gymraeg; môr o hwyl
a rwyfwn yn ein Prifwyl,
llanw'r ymgynnull uniaith,
llanw hardd arall i'n hiaith!